**<u>Newidiadau i broses cynllun Cyflenwi a Mamolaeth Hirdymor y Fro – diweddariad y Fforwm Cyllideb 02.12.24</u>**

Mae adolygiad o brosesau cynlluniau cyflenwi a mamolaeth hirdymor wedi'i gynnal er mwyn symleiddio prosesau, cyflwyno parhad rhwng y ddau gynllun a mynd i'r afael ag anghysondebau adrodd cyllideb ysgolion mewn perthynas ag absenoldebau hirdymor a chyfanswm costau staffio yng nghyllideb ysgolion.

O fis Ebrill 2025 ymlaen, bydd y gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r ddau gynllun yn newid i sicrhau bod cyllidebau ysgolion yn adlewyrchu'r gwariant blynyddol gwirioneddol cywir ar gyfer staffio.

**Cynllun cyflenwi hirdymor** – O fis Ebrill, bydd ysgolion yn prosesu eu hanfonebau CH eu hunain i ganolfan gost eu hysgol a'r codau manylion CH cyfatebol (i'w gyhoeddi). Yna bydd hawliad misol yn cael ei wneud i Gyllid Addysg am ad-dalu'r costau a fydd yn cael eu credydu i ysgolion trwy godau incwm ail-godi.

**Cynllun mamolaeth** – O fis Ebrill ymlaen, bydd ysgolion nawr yn cadw costau mamolaeth ar eu canolfan gost ysgol a chodau manylion mamolaeth cyfatebol (i'w cyhoeddi). Yna bydd hawliad misol yn cael ei wneud i Gyllid Addysg am ad-dalu'r costau a fydd yn cael eu credydu i ysgolion trwy godau incwm ail-godi.

Bydd newid yn y gwaith gweinyddol gofynnol mewn ysgolion, ond bydd yr effaith ar lwyth gwaith yn fach iawn nawr bod pob ysgol eisoes yn defnyddio Fusion i fewnbynnu anfonebau a thaflenni amser yn rheolaidd. Wrth i'r prosesau newydd fynd i mewn, rydym yn disgwyl y bydd gostyngiad mewn gwaith gweinyddol cyffredinol o ran camgodio ac ymholiadau cyffredinol ynghylch y cynlluniau.

Bydd Cyllid Addysg yn darparu'r ffurflenni hawlio, cyfarwyddiadau a chanllawiau angenrheidiol i bob ysgol cyn 1 Ebrill 2025.

Bydd y llyfryn CLG ar gyfer 2025/26 yn cael ei ddiweddaru i gofnodi'r newidiadau hyn.